Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Hydref 2015

# Amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ar gyfer 2016 – 2017

1. Ar 7 Gorffennaf 2015, ysgrifennodd Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at y Pwyllgor Busnes yn cynnig dyddiadau ar gyfer cyhoeddi cyllideb ddrafft 2016-17, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch pryd y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi'i Hadolygiad o Wariant, dywedodd y Gweinidog y gallai'r amserlen newid.

2. Ar 29 Medi 2015, diwygiodd y Gweinidog ei hamserlen arfaethedig ac, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiad y dylai'r Pwyllgor Cyllid adrodd ar y Gyllideb Ddrafft.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ac wedi llunio'r amserlen a ganlyn ar gyfer ystyried y gyllideb ar gyfer 2016 – 2017:

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Cyllideb ddrafft y Llywodraeth yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad** | 8 Rhagfyr 2015 |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth** | 2 Chwefror 2016 |
| **Y cynnig cyllideb blynyddol yn cael ei gyflwyno** | 1 Mawrth 2016 |